OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1708

# Gorchymyn Heidiau Bridio Dofednod a Deorfeydd (Cymru) 2007

## RHAN 3

Rheoli salmonela mewn *Gallus gallus*

PENNOD 1

Dyletswyddau meddiannydd

### Cymhwyso Pennod 1

**6.** Mae'r Bennod hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddaliad lle y cedwir un neu fwy o heidiau bridio o 250 o leiaf o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* ac mae unrhyw gyfeiriad yn y Bennod hon at feddiannydd yn gyfeiriad at feddiannydd y cyfryw ddaliad.

### Hysbysu bod heidiau bridio wedi cyrraedd

**7.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o'r dyddiad y disgwylir i bob haid fridio o 250 o leiaf o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* gyrraedd y daliad.

(2) Rhaid ei hysbysu o leiaf ddwy wythnos cyn y dyddiad y disgwylir i'r haid gyrraedd.

### Hysbysu o symud ymlaen i'r cam dodwy etc.

**8.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o'r dyddiad y mae'n disgwyl i bob haid fridio ar y daliad—

(a) symud ymlaen i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy; a

(b) cyrraedd diwedd y gylchred gynhyrchu.

(2) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o leiaf ddwy wythnos cyn bod disgwyl i'r haid fridio symud ymlaen i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy.

### Samplu heidiau bridio

**9.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd gymryd samplau o bob haid fridio ar y daliad ar yr adegau a ganlyn—

(a) pan fo'r adar yn yr haid yn gywion;

(b) pan fo'r adar yn yr haid yn bedair wythnos oed;

(c) dwy wythnos cyn y dyddiad y mae disgwyl i'r haid ddechrau dodwy neu symud ymlaen i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy; ac

(ch) bob ail wythnos yn ystod y cyfnod dodwy.

(2) Rhaid i'r gwaith samplu o dan baragraff 1(a) i (c) gael ei wneud yn unol ag Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn a rhaid i waith samplu o dan baragraff 1(ch) gael ei wneud yn unol â phwynt 2.2.2.1 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (samplu rheolaidd a digymell gan y gweithredydd).

**Anfon samplau i labordy a gymeradwywyd**

**10.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd anfon y samplau a gymerir o dan erthygl 9 i labordy a gymeradwywyd at ddibenion profi am bresenoldeb salmonela.

(2) Rhaid iddo anfon y samplau o fewn—

(a) 24 o oriau ar ôl eu cymryd; neu

(b) o fewn 48 o oriau ar ôl eu cymryd os yw'n gosod y samplau mewn oergell ar dymheredd rhwng 1° a 4° C cyn gynted ag y bo'n ymarferol iddo wneud hynny ar y diwrnod y'u cymerir.

(3) Rhaid iddo sicrhau bod y samplau'n cael eu nodi cyn iddynt gael eu hanfon er mwyn galluogi'r labordy a gymeradwywyd i gadarnhau—

(a) enw'r meddiannydd;

(b) cyfeiriad y daliad lle y cedwir yr haid fridio y daeth y samplau ohoni;

(c) y math o samplau;

(ch) y dyddiad y cymerwyd y samplau;

(d) dull adnabod yr haid fridio y daeth y samplau ohoni;

(dd) oed yr haid fridio y daeth y samplau ohoni;

(e) p'un ai haid o ddodwywyr fridwyr neu o fridwyr cig yw'r haid fridio y daeth y samplau ohoni; ac

(f) statws yr haid fridio y daeth y samplau ohoni yn y pyramid bridio.

**Cofnodion samplau**

**11.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd—

(a) cadw cofnod o'r wybodaeth a geir yn Atodlen 3, paragraff 1, mewn cysylltiad â phob sampl a gymerir yn unol ag erthygl 9; a

(b) erbyn 30 Mehefin a 31 Rhagfyr bob blwyddyn, roi i Weinidogion Cymru yr wybodaeth honno mewn cysylltiad â samplu yr ymgymerir ag ef yn y chwe mis cyn ei hysbysu.

(2) Rhaid iddo gadw'r cofnod ym (1)(a) am ddwy flynedd ar ôl y dyddiad y cymerwyd y sampl.

**Cofnodion symudiadau**

**12.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd gadw cofnod o'r wybodaeth yn Atodlen 3, paragraff 2, mewn cysylltiad â symud i'r daliad neu o'r daliad unrhyw ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* neu eu cywion neu eu hwyau.

(2) Rhaid iddo gadw'r cofnod am ddwy flynedd ar ôl dyddiad symud y ffowls.

PENNOD 2

Dyletswyddau labordai a gymeradwywyd

**Dyletswyddau labordy a gymeradwywyd**

**13.**—(1) Rhaid i'r person â gofal labordy a gymeradwywyd sicrhau bod y gwaith o archwilio samplau a anfonwyd iddo o dan erthygl 10 yn dechrau o fewn 48 o oriau ar ôl i'r samplau hynny ddod i law.

(2) Rhaid iddo sicrhau—

(a) bod y samplau'n cael eu paratoi fel a ganlyn—

(i) rhaid paratoi leinin blychau cywion yn unol ag Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn;

(ii) rhaid paratoi samplau o swabiau o esgidiau yn unol â phwynt 3.1.2 yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn; a

(iii) rhaid paratoi unrhyw samplau eraill o ysgarthion yn unol â phwynt 3.1.3 o'r Atodiad hwnnw;

(b) bod y samplau'n cael eu profi am salmonela yn unol â'r dull a geir ym mhwynt 3.2 o'r Atodiad hwnnw; ac

(c) bod adroddiad ysgrifenedig ar ganlyniad unrhyw brawf ar unrhyw sampl yn cael ei roi i'r meddiannydd a anfonodd y sampl cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

PENNOD 3

Defnyddio asiantau gwrthficrobaidd a brechlynnau

**Gwahardd defnyddio asiantau gwrthficrobaidd**

**14.** Ni chaiff neb roi unrhyw asiant gwrthficrobaidd i unrhyw aderyn mewn haid fridio o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* fel dull penodol o reoli salmonela a hynny'n groes i Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn 1177/2006 (defnyddio asiantau gwrthficrobaidd).

**Gwahardd defnyddio brechlynnau**

**15.** Ni chaiff neb roi unrhyw frechlyn salmonela byw i unrhyw aderyn mewn haid fridio o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* yn groes i Erthygl 3(1) o Reoliad y Comisiwn 1177/2006 (defnyddio brechlynnau).